

279

CYNGOR CYMDEITHAS LLANFACHRAETH
COFNODION CYFARFOD 30ain MAWRTH 2021
A GYNHALIWD

PRESENNOL.

Nid oedd cyfarfod wyneb yn wyneb oherwydd coronafeirws.(Cysylltu dros ffon neu ebost)

YMDDIHEURIADAU.

CYNGHORWYR YN DATGAN DIDDORDEB. A FFURFLEN I`W ARWYDDO. Neb.

COFNODION 23ain CHWEFROR 2021 YN GYWIR. I`w sganio`n gyflym pan fydd y cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn ailgychwyn.

CODI O`R COFNODION.

CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990.

1. Dim.

PENDERFYNIADAU.

2. FPL/2020/270. *Neuadd Wen, Llanfachraeth. Wedi ei dynnu`n ol. Derbyn.*
3. HHP/2020/280. *Bedd y Cor, Llanfachraeth. Caniatad. Derbyn.*
4. OP/2020/6. *Tir Ger Stad Roebuck, Llanfachraeth. Y cais ynghylch ar datblygiad wedi ei dynnu`n ol. Cyngor yn derbyn ac yn hapus hefo`r canlyniad.*

GOHEBIAETH. CYNGOR SIR YNYS MON.

5. *Mater Rhandiroedd (Allotment) T Dylan Edwards.*
Mae Trystan Evans wedi egluro mae`r Cyngor Sir yn ffafriol i`r Adran Eiddo fel dywedwyd.
Y Cyngor i anfon llythyr ffurfiol i`r Adran Eiddo (Sylw T Dylan Edwards) i esbonio dymuniad i lesu tir.
Wedyn bydd yr Adran Eiddo yn trafod faint o dir sydd ei angen yn ogystal a thelerau a chyfrifoldeb.
Mae y tir ger Mae Machraeth ym mherchnogaeth yr Adran Dai, Mae`r Pennaeth Tai yn barod wedi cadarnhau nad oes ganddo unthyw wrthwynebiad i rhoi y tir drosodd i`r Cyngor Cymdeithas at y pwrpas o dan arweiniad yr Adran Eiddo. Symud ymlaen Cynnig I G Evans eilio Cyng W G Roberts.
Cyng B Rowlands i ofyn nawr i`r pentrefwyr sydd yn dal a diddordeb.
Gweld pwy sydd yn mynd yn gyfrifol. A beth fydd y gost i bob un. Efallai ond cael digon i dalu am y les.
6. *Pennaeth Adran Eiddo T Dylan Edwards.*
Cae Chwarae (Japanese Knotweed)
Y Cyngor Cymdeithas yn lesu`r tir sydd yn gyfrifol am gael gwared a`r Knotweed.
Mae posibilrwydd o anfon cais i Dylan Edwards i edrych a fuasai ef yn trefnu i`r Adran Priffyrdd i chwistrellu y tyfiant. OND bydd y Cyngor yn cael ei bilio am y gwaith.
Perchennog yr Hen Gapel Bach sydd yn gyfrifol am ei dyfiant yn ol rheoliadau perthnasol.
Cynnig Cyng I G Evans eilo Cyng W G Roberts i`r Cyngor Sir wneud y gwaith.

GOHEBIAETH (ARALL)

7. *Cyfoeth Naturiol Cymru.*
Ar gyfer gwybodaeth:-
Adnewyddu cod Cefn Gwlad 2021 – geiriad terfynol.
Alison Roberts 0300 65 3298.

8. Un Llais Cymru. Aelodaeth £85.00. Pasiwyd i dalu Cynnig W G Roberts, eilio Cyng E J Bryant.
9. Parc, Llanfachraeth. Jackie Lewis.
Tynu sylw fod fandaliaeth wedi bod yn y Cae Chwarae.
Edrych at gyflwr yr offer yn enwedig y matiau, ddim yn saff.
Er gwybodaeth: cynlluniau ar y gweill gan ffrindiau Llanfachraeth i wneud gwellianau i'r llecyn gwlyb.
Mae Cyng M Woodward yn mynychu'r cyfarfodydd ar lein fel cynrychiolydd o'r Cyngor Cymdeithas.
Mae rhaid gwneud rhywbeth ar matiau nawr (Ni fedrwn ddisgwyl mwy) Cyng B Rowlands i gysylltu i weld y ffordd ymlaen.
Mae y Cae Chwarae yn codi cywilydd nawr. Beth ydyw'r farn, a ydyw yn amser ei rhoi yn ol i'r Cyngor Sir? Nid ydyw'r Cynghorwyr eisiau cael gwared. Trwsio bob peth unwaith ac am byth (Cyng W G Roberts)
Os ydyw Ffrindiau Llanfachraeth eisiau helpu, y cam gorau fuasai iddynt ffurfio Mudiad a cael pwyllgor i'w rhedeg. Mae Grantiau ar gael i Fudiadau. Y Cyngor fuasai yn gyfrifol o'r Les gan y Cyngor Sir.
10. M Owen Archwiliad Chwarterol.
Dim byd newydd i'w wneud ond rhaid cadw a'r ben pethau.

RHODDION.

11. Rhwyd (Blynyddol) £50.00.

PLWYFOL.

12. Adolygu Cyflog y Clerc.
Trwy gynnig Cyng E J Bryant eilio Cyng W G Roberts penderfynwyd codi cyflog y Clerc i £160.00 + Treth Incwm y mis o 1af Ebrill 2021. (£1920.00 + Treth Incwm y flwyddyn)
13. Cafwyd ymateb gan Warden Cwn y Cyngor Sir fod binniau baw cwn wedi ei dosbarthu yn y pentref.
14. Cae Chwarae. Torri Glaswellt.
Cafwyd tri amcangyfrif eleni. Y Clerc wedi gofyn am waith ychwanegol, manau nad ydynt yn cael sylw ac yn fler.
James Watt yn prisio rhywbeth fel £95.00 y torriiad (16 torriiad) a'r ychwanegol o gwmpas £500.00 ond ddim yn hapus o'i gyflwr ac yn tynnu yn ol. Y peiriant torri dim yn addas. (Cyfanswm £1,920.00)

Geraint Roberts Gwasanaeth Coed a Garddio Mon. £100.00 i torriiad (16 torriiad) gyda'r ychwanegol yn £90.00 y torriiad (6 torriiad) pryderus am ei gyflwr. (Cyfanswm £2,140.00)

Nigel Wyn Williams, Bodedern. Torriiad i 50mm pan mae angen (2 i 3 tro y mis) chwynu pan mae angen. Codi'r Sbwriel un waith yr wythnos. Strimio pan mae angen. Archwiliad gweledol o'r cyfarpar (Offer Chwarae)plant ac adrodd yn ol £1,600.00 (Talu bob chwarter)
Arwynebedd garw (Ychwanegol) Torri'r glaswellt mewn llwynfannau i gyrraedd 50mm (2 i 3 tro y mis) Codi sbwriel unwaith yr wythnos. Strimio pan mae angen £300.00 (Talu bob chwarter) Cyfanswm £1,900.00.

Y Clerc wedi dewis N W Williams i wneud y gwaith ar ol cyfarfod ar y safle £1,900.00 (£475.00 chwarterol) Dechrau 1af Ebrill 2021.

Cynnig W G Roberts, eilio Cyng I G Evans yn cadarnhau dewisiad y Clerc. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad.